CYFARFOD BWRDD RHEOLI ETHOLIADOL COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU

A GYNHALIWYD AM 10:00 AM AR 12 MEHEFIN 2026 YN CP2 A THRWY MICROSOFT TEAMS

Yn bresennol: Ian Bancroft (Cadeirydd); Eifion Evans (Dirprwy Gadeirydd); Bethan Williams Price (Aelod); Beverly Owen (Aelod); Neal Cockerton (Aelod); Paul Orders (Aelod);

Swyddogion Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (CDFfC) a oedd yn bresennol: Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mark Pascoe (Pennaeth Iechyd Democrataidd); Jo Nelson (Uwch Reolwr Etholiadau); Ellie Chapman (Swyddog Polisi Iechyd Democrataidd)

Gwahoddedigion: Cath Uphill (y Comisiwn Etholiadol); Rhydian Thomas (y Comisiwn Etholiadol); Mathew Xerri (Llywodraeth Cymru); Lowri Edwards (Cyngor Ceredigion); William Whiteley (Llywodraeth Cymru); Elan Closs Stephens (y Comisiwn Etholiadol); Rhys George (Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol); Becca Crosier (y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol); Clare Sim (Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol); Simon Belcher (Heddlu De Cymru); Rob Thomas (Solace); Ella Griffiths-Downing (y Comisiwn Etholiadol)

Ymddiheuriadau: Sarah Ling (Ymgynghorydd); Rhydian Fitter (CDFfC); Martin Nicholls (Aelod); Michael Kay (Llywodraeth Cymru); Anna Daniel (Comisiwn y Senedd); Ywain W (y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol)

Amser Dechrau: 10:30
Amser Gorffen: 11:58

1. Datganiadau buddiannau

1.1. Dim.

2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

2.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Ebrill 2026.

3. Cofnod Camau Gweithredu

3.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Cofnod Camau Gweithredu.

3.2. **Nodwyd** bod pedwar cam gweithredu yn weddill.

3.3. **Nodwyd** bod y Ddeddf Atebolrwydd Aelodau wedi cael Cydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill ar ôl y cyfarfod diwethaf ac y gellir cau'r cam gweithredu hwn bellach.

3.4. **Nodwyd** bod un cam gweithredu sy'n weddill yn ymwneud â'r gwaith datblygiad proffesiynol parhaus sy'n parhau yn y cefndir.

3.5. **Nodwyd** bod gwaith wedi dechrau ar yr ymarfer mapio rhanddeiliaid.

3.6. **Nodwyd** bod angen diweddariad gan gydweithwyr o'r Deyrnas Unedig ar ddiwygiadau arfaethedig.

3.7. **Cytunwyd** i glirio'r Cofnod Camau Gweithredu a dechrau o'r newydd yn y flwyddyn newydd, gan adael un cam gweithredu yn weddill.

4. Cyfarfod blynyddol

4.1. **Nodwyd** bod y Cadeirydd wedi ysgrifennu at aelodau statudol presennol y Bwrdd a bod 4 Aelod wedi cadarnhau y byddant yn parhau â'u haelodaeth.

4.2. **Nodwyd** bod y Bwrdd yn chwilio am Aelod ychwanegol sy'n Swyddog Canlyniadau ar gam cynharach o'i gyfnod yn y swydd er mwyn ei gadw.

4.3. **Nodwyd** y bydd angen i'r penodiadau hyn gael eu cymeradwyo gan Fwrdd CDFfC.

4.4. Diolchodd y Bwrdd i Paul Orders am ei gyfraniadau at y Bwrdd a dymunodd yn dda iddo ar ei anturiaethau newydd.

4.5. Diolchodd y Bwrdd i Eifion Evans am ei gyfraniadau fel Dirprwy Gadeirydd a'i waith i Fwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru.

4.6. **Cytunwyd** y bydd Neal yn ymgymryd â rôl y Dirprwy Gadeirydd.

4.7. Nodwyd y bydd y Cadeirydd yn cyfarfod â rhanddeiliaid allweddol a'r 22 Swyddog Canlyniadau yn rhanbarthol yn ystod yr wythnosau i ddod.

4.8. **Nodwyd** y bydd y Bwrdd yn gweithio gyda chadeiryddion gweithgorau i lunio agendâu mewn ffordd fwy cydweithredol.

4.9. Trafodwyd lledaenu gwybodaeth o'r Bwrdd i sicrhau bod gwybodaeth yn cyrraedd Swyddogion Canlyniadau a Rheolwyr Gwasanaethau Etholiadol yn

effeithiol.

5. Adrodd ar gofnodion

5.1. **Nodwyd** y bydd cofnodion y flwyddyn ddiwethaf yn cael eu cyfieithu a'u cyhoeddi ar wefan CDFfC.

5.2. **Nodwyd** y bydd hyn yn cael ei wneud yn fwy rheolaidd, pan fydd y cofnodion wedi'u cymeradwyo, er mwyn sicrhau eu bod ar gael yn fwy prydlon.

6. Etholiadau Senedd 2026 – Adolygiad o'r etholiad

6.1. Trafodwyd pleidleisiau drwy'r post a rhediad atodol Caerdydd o oddeutu 13,000 o becynnau post. **Nodwyd** bod Civica wedi rhoi sicrwydd iddynt fod y rhediad wedi cael ei argraffu a'i anfon.

6.2. **Nodwyd** bod camau lliniarol Caerdydd yn cynnwys ailargraffu pecynnau post a'u danfon â llaw, a bod y ganran a bleidleisiodd drwy'r pecynnau hynny a ddanfonwyd â llaw yn 64%.

6.3. **Nodwyd** bod Caerdydd wedi rhoi hysbysiad o anghydfod i Civica, a fydd yn rhoi mesurau ychwanegol ar waith i atal y mater rhag ailddigwydd.

6.4. **Nodwyd** bod Caerdydd wedi cwblhau'r holl brosesau statudol yn gywir, gyda cheisiadau wedi'u prosesu'n brydlon a data wedi'i allgludo a'i anfon at Civica.

6.5. **Nodwyd** bod yr adolygiad yn parhau ac y gallai fod wedi ansefydlogi'r etholiad yng Nghaerdydd ynghyd â'r sylw a roddwyd iddo yn y cyfryngau.

6.6. **Nodwyd** y bydd gwersi a ddysgwyd yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd.

6.7. Trafodwyd y cymorth a ddarperir gan Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, y Comisiwn Etholiadol, y Bwrdd Rheoli Etholiadol (BRhE), Llywodraeth Cymru a'r heddlu.

6.8. Trafodwyd tynhau'r ddeddfwriaeth ynglŷn â'r elfen drawsffiniol, yn enwedig cyllid, a fyddai'n helpu i amddiffyn rhai o'r heriau yn ymwneud â sut i reoli hawliadau ariannol.

6.9. Trafodwyd y gwaith trawsffiniol da rhwng Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a Bro Morgannwg.

6.10. Trafodwyd y ffaith bod y cyfrif wedi mynd yn dda, gan amlygu gwaith y timau etholiad.

6.11. Trafodwyd dwyster yr ymwneud gan y cyfryngau yng nghyfrif Casnewydd Islwyn a'r cynnydd mewn ceisiadau gan asiantiaid.

6.12. Trafodwyd cryfhau cymorth y BRhE a'r Comisiwn Etholiadol ar gyfer sesiynau briffio ymgeiswyr ac asiantiaid, nad oeddent wedi'u mynychu'n dda ac a fyddai wedi ateb rhai o'r cwestiynau gan ymgeiswyr ac asiantiaid yn ystod y cyfrif yn arbennig.

6.13. **Nodwyd** bod Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol wedi ysgrifennu at Weinidogion yn Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth y Deyrnas Unedig gan amlygu bod etholiadau'n dod yn fwy heriol. Amlygodd feysydd allweddol fel diffyg presenoldeb mewn sesiynau briffio ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid, ymddangosiad pleidiau gwleidyddol newydd a bod â'r seilwaith i gefnogi eu hymgeiswyr.

6.14. Trafodwyd nifer yr is-etholiadau sydd wedi digwydd ers 7 Mai, lle mae ymgeiswyr wedi cael eu hanghymhwyso neu eisoes wedi ymddiswyddo.

6.15. Trafodwyd capasiti cyflenwyr a materion yn ymwneud ag argraffwyr.

6.16. Trafodwyd Panel Pleidiau Gwleidyddol y Senedd a gynhaliwyd ddoe lle **nodwyd** bod y dulliau democrataidd wedi sefyll yn gadarn a bod y pwyslais ar y canlyniad.

6.17. Trafodwyd y pwysau sydd ar weinyddwyr etholiadol, a bod y trefniadau trawsffiniol yn gofyn am ewyllys da i sicrhau bod popeth yn mynd yn dda.

6.18. Trafodwyd y ffaith bod etholiadau'n dod yn fwy cymhleth ac yn anoddach eu gweinyddu i'r safon a ddisgwylir gan fod cymhlethdod ychwanegol, dargyfeiriad, dyblygu gwaith a mwy o risg weithredol.

6.19. **Nodwyd** y bydd y Comisiwn Etholiadol yn cyhoeddi adroddiad ar yr etholiad ym mis Medi ac y bydd yn casglu adborth cyn hynny.

6.20. Soniodd y Comisiwn Etholiadol ymhellach ynglŷn â'r diffyg presenoldeb yn y sesiynau briffio ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid. **Nododd** fod hyn yn debyg ledled Lloegr a'r Alban eleni.

6.21. **Nodwyd**, yng nghyfarfod Panel Pleidiau Gwleidyddol y Senedd a gynhaliwyd ddoe, fod pleidiau gwleidyddol hefyd yn cydnabod y niferoedd isel mewn sesiynau briffio i ymgeiswyr, a dywedasant eu bod yn egluro wrth ymgeiswyr fod y sesiwn friffio'n bwysig.

6.22. **Nodwyd** y bydd y Comisiwn Etholiadol yn gweithio gyda'r pleidiau gwleidyddol a chynrychiolwyr o'r grŵp hwn i feddwl am ffyrdd arloesol o sicrhau bod ymgeiswyr yn ymwneud â sesiynau briffio.

6.23. Diolchwyd i'r heddlu, gan amlygu eu gwaith cynllunio ar gyfer yr etholiad hwn.

6.24. **Nodwyd** bod llawer o waith wedi cael ei wneud yn gynnar i ddatblygu perthnasoedd trawsffiniol.

6.25. **Nodwyd** bod materion wedi codi ynglŷn â rheoli cyllideb, cyfrifoldebau Dirprwy Swyddogion Canlyniadau a gwahaniaethau rhwng y gofynion amrywiol ar awdurdodau lleol. **Nodwyd** y gallai deddfwriaeth fod wedi mynd i'r afael â hyn.

6.26. **Nodwyd** bod prosesau'r Platfform wedi gweithio'n dda, ond eu bod wedi gosod gofynion ychwanegol ar dimau etholiad, gan amlygu pryder ar gyfer mis Mai nesaf.

6.27. **Nodwyd** bod y broses enwebu wedi mynd rhagddi'n ddidrafferth a bod llawer o becynnau enwebu wedi'u cyflwyno'n electronig. Fodd bynnag, bu llawer o gysylltiad ag ymgeiswyr dibrofiad.

6.28. Trafodwyd y ffaith bod coreograffiaeth y cyfrif yn wahanol ar draws etholaethau.

6.29. **Nodwyd** y bu lefelau uchel o gofrestru pleidleiswyr drwy gydol ymgyrch y Comisiwn Etholiadol.

6.30. **Nodwyd** bod y llyfryn i aelwydydd a anfonwyd gan y Comisiwn Etholiadol wedi cynyddu ymwybyddiaeth ynglŷn â chofrestru i bleidleisio a newidiadau yn yr etholiad.

6.31. Trafodwyd etholiadau lleol y flwyddyn nesaf a sicrhau nad yw gweithgarwch cyfathrebu rhanddeiliaid yn gorgyffwrdd a'i fod yn darparu gwerth da am arian.

6.32. Trafodwyd cymhlethdod gwahanol ddiwygiadau etholiadol ar gyfer Cymru a'r Deyrnas Unedig, sy'n cael effaith gynyddol ar gyfathrebu a dealltwriaeth pleidleiswyr.

6.33. **Nodwyd** bod Llywodraeth Cymru yn cynllunio ymarfer gwersi a ddysgwyd a'i bod yn ystyried deddfwriaeth ynglŷn â meysydd fel costau etholiad a threfn papurau pleidleisio.

6.34. Trafododd Heddlu De Cymru y gwaith cynllunio sylweddol a wnaed ar gyfer yr etholiad. **Nodwyd** bod materion yn ymwneud â deallusrwydd artiffisial a ffugiadau dwfn yn parhau i gynyddu.

6.35. **Cytunwyd** i gyflwyno sylwadau myfyriol ynglŷn rôl y BRhE i gyfarfod Bwrdd mis Medi.

6.36. **Nodwyd** bod y Ddeddf Aelodau ac Etholiadau yn cynnwys darpariaeth ar gyfer adolygiad ôl-ddeddfwriaethol a gynhelir gan un o bwyllgorau'r Senedd. Cytunwyd yn gynharach yr wythnos hon y bydd Pwyllgor y Cyfansoddiad, Cyfiawnder a Materion Allanol yn cynnal yr adolygiad.

7. Etholiadau Lleol 2027 – Diweddariad gan y Grŵp Cynllunio Etholiadau a materion sy'n codi

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 5 Mehefin 2026.

7.2. **Nodwyd** y bydd y Grŵp Cynllunio Etholiadau yn parhau i gyfarfod bob yn ail fis, rhwng cyfarfodydd y Bwrdd llawn, ac yn cynnal busnes ychwanegol drwy e-bost, pan fydd angen.

7.3. **Nodwyd** bod y grŵp wedi trafod nifer o faterion allweddol a oedd yn effeithio ar gynnal etholiadau ym mis Mai. Roedd hyn yn cynnwys trefn pleidiau gwleidyddol ar y papur pleidleisio a'r gofynion ar gyfer cyhoeddi canlyniadau.

7.4. **Cytunwyd** i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru gan amlygu pryderon a phwysau ynglŷn â'r canfasiad, y system ymgeisio ar-lein am bleidlais absennol a chofrestru pleidleiswyr yn awtomatig.

7.5. Trafodwyd y ffaith nad yw'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd ar gyfer etholiad y Senedd yn briodol i etholiadau lleol, fel lliw papurau pleidleisio.

7.6. Trafodwyd y ffaith bod dwy set o gyfarwyddiadau wedi'u cyhoeddi y llynedd. Byddai'r Comisiwn Etholiadol yn dymuno un set yn lle hynny.

7.7. Trafodwyd dilysu a chyfrif a ph'un a ddylai hyn gael ei wneud drannoeth. **Nodwyd** bod rhai Gweinyddwyr Etholiadol yn ffafrio cyfrif drannoeth ac yr hoffent gael argymhelliad gan y BRhE i drefnu ar gyfer hyn.

7.8. Trafodwyd y llythyr at Lywodraeth Cymru ac egluro'r hyn y byddai'n ei gynnwys mewn perthynas â'r llythyr yr ysgrifennodd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol ar 6 Mai. **Nodwyd** bod diffyg eglurder o hyd ynglŷn â chydgyfeiriant a'r effaith y byddai'n ei chael ar bolau mis Mai.

7.9. Dywedwyd bod cyfrif dros nos yn gwella democratiaeth gan ei fod yn creu cyffro.

7.10. Trafodwyd pwyll ynglŷn â chyfarwyddiadau ar gyfer etholiadau lleol a mynegi'r cyfrif drannoeth fel argymhelliad yn hytrach na Chyfarwyddyd.

7.11. Trafodwyd ystadegau gan ddarlledwyr sy'n dangos bod mwy o bobl yn gwylio'r cyfrif drannoeth na thros nos.

7.12. **Nodwyd** bod y cyfryngau wedi gofyn am gyfrif drannoeth oherwydd dyna'r opsiwn sy'n well ganddynt.

7.13. **Nodwyd** y bydd cyfarfod yn cael ei gynnal gyda'r cyfryngau yn ddiweddarach y mis hwn i ddadfriffio a thrafod etholiad 27.

7.14. **Nodwyd** bod cyfyngiadau ariannol presennol ar ddarlledwyr yn golygu na fyddent yn gallu darlledu o 10pm ymlaen tan 6pm drannoeth.

7.15. Trafodwyd cyhoeddi set o gyfarwyddiadau gan y BRhE a fyddai'n destun ymgynghoriad â Swyddogion Canlyniadau, y gellid eu diwygio yn seiliedig ar eu hadborth, pe byddai angen.

7.16. **Cytunwyd** i lunio llythyr at Lywodraeth Cymru a'i gylchredeg yr wythnos nesaf ar gyfer adborth.

8. Diweddariad gan y Comisiwn Etholiadol

8.1. Rhoddwyd diweddariad ar lafar.

8.2. **Nodwyd** bod risgiau allweddol yn ymwneud â'r system ymgeisio ar-lein am bleidlais absennol a chofrestru pleidleiswyr yn awtomatig, a bod angen amserlen cyn gynted â phosibl i helpu i gyhoeddi arweiniad.

8.3. **Nodwyd** y bydd gwaith yn cael ei wneud y flwyddyn nesaf ar ymwybyddiaeth gyhoeddus o'r etholiadau.

8.4. **Nodwyd** y bydd y Comisiwn Etholiadol yn rhannu drafft cyntaf o'r arweiniad yr wythnos nesaf ar gyfer sylwadau.

8.5. **Nodwyd** y disgwylir i'r arweiniad ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid gael ei gyhoeddi ym mis Medi ac y bydd yr arweiniad ar gyfer Swyddogion Canlyniadau yn dilyn ym mis Tachwedd.

9. Diweddariad ar gyfathrebu

9.1. Cyflwynwyd eitem 9 ar lafar.

9.2. **Nodwyd** bod gwerthusiadau'n cael eu cwblhau gan Gomisiwn y Senedd, y Comisiwn Etholiadol a CDFfC ynglŷn â chyfathrebu.

9.3. **Nodwyd** bod arolwg wedi cael ei ddosbarthu i awdurdodau lleol yn gofyn iddynt am adborth ar y deunydd cyfathrebu canolog a baratowyd ac unrhyw wersi a ddysgwyd.

9.4. **Nodwyd** bod Comisiwn y Senedd yn arwain y broses o werthuso grŵp cyfathrebu etholiadol y Senedd sydd wedi bod ar waith am y 2 flynedd ddiwethaf, ac y bydd yn cynhyrchu adroddiad drafft cyn y cyfarfod nesaf ym mis Medi.

9.5. **Nodwyd** y bydd grŵp cyfathrebu'n cael ei sefydlu ar gyfer etholiadau 2027 ac y bydd gwaith yn cael ei wneud arno yn ystod yr haf.

10. Cofrestr risgiau a chynllun rhaglen etholiadau lleol

10.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig mis Mehefin 2026.

10.2. **Nodwyd** bod hyn yn debyg i'r gofrestr a ddefnyddiwyd ar gyfer etholiad y Senedd, gydag ambell eitem ychwanegol sy'n benodol i lywodraeth leol ac eitemau yn ymwneud â'r system ymgeisio ar-lein am bleidlais absennol a chofrestru pleidleiswyr yn awtomatig.

10.3. **Nodwyd** bod dyfynbrisiau cychwynnol wedi dod i law gan ddarparwyr System Rheoli Etholiadol (EMS).

10.4. **Nodwyd** bod rhyngwyneb rhaglennu cymwysiadau (API) yn cael ei werthuso a fyddai'n galluogi Gweinyddwyr Etholiadol i lanlwytho'n awtomatig i'r platfform yn ystod y broses enwebu.

10.5. **Nodwyd** y bydd angen ystyried gwerth am arian ar yr un pryd â chydnabod y pwysau ar Weinyddwyr Etholiadol.

11. Y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau – adolygiad o'r gwaith hyd yma

11.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig mis Mehefin 2026.

11.2. **Nodwyd** bod y Platfform wedi bodloni ei ofynion rheoleiddiol cyfreithiol.

11.3. **Nodwyd** nad oedd y wefan wedi methu ar unrhyw adeg.

11.4. **Nodwyd** bod ymgysylltiad da â'r cyhoedd, ond nad oedd wedi cyrraedd y lefelau disgwyliedig.

11.5. **Nodwyd** bod popeth wedi cael ei gyhoeddi'n brydlon, gan amlygu rhai materion yn ôl ac ymlaen gyda thimau etholiad.

11.6. **Nodwyd** bod ymgysylltiad rhesymol â phleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr unigol, a bod nifer dda o anerchiadau etholiad wedi'u cyhoeddi.

11.7. **Nodwyd** bod adborth ar y wefan yn gymysg, a bod hyn yn deillio o ddisgwyliadau pobl. Un enghraifft oedd pobl yn holi ynghylch gwybodaeth am ymgeiswyr cyn y broses enwebu.

11.8. Trafodwyd olrhain yr union ffigurau ar gyfer defnydd Cymraeg a Saesneg dros y blynyddoedd a chynnwys hyn yn yr adroddiad terfynol.

12. Camau nesaf allweddol a risgiau

12.1. **Nodwyd** bod tendr parhaus ar gyfer rhyngwyneb rhaglennu cymwysiadau a fyddai'n galluogi Gweinyddwyr Etholiadol i lanlwytho'n awtomatig i'r Platfform, gan **nodi** y byddai angen iddo gyfuno lleddfu pwysau ar y system â gwerth da am arian.

12.2. O ystyried graddfeydd amser, **cytunwyd** y byddai'r penderfyniad ar yr opsiwn yn dilyn y tendr ar gyfer y rhyngwyneb rhaglennu cymwysiadau yn cael ei

wneud trwy ysgrifennu at aelodau'r Bwrdd yn dilyn y grŵp llywio a fydd yn gwneud argymhellion. Y rheswm am hyn yw oherwydd y bydd angen i gyfarfod CDFfC ym mis Gorffennaf wneud penderfyniad terfynol ar adnoddau. Mae'r broses hon yn gyson â'r ffordd y gwnaed penderfyniadau ynglŷn â'r platfform y llynedd pan nad oedd graddfeydd amser yn cyd-fynd â chyfarfodydd.

12.3. **Nodwyd** bod y broses ddatblygu ar gyfer canlyniadau cyfrif yn parhau.

13. Llywodraeth Cymru

13.1. Cyflwynwyd eitem 13 ar lafar.

13.2. **Nodwyd** bod Gweinidogion newydd wedi cael eu briffio ar faterion allweddol a bod Llywodraeth Cymru yn aros am gyfeiriad a chyfarwyddyd ar agweddau amrywiol fel cofrestru pleidleiswyr yn awtomatig.

13.3. **Nodwyd** bod y Ddeddf Atebolrwydd Aelodau wedi cael Cydsyniad Brenhinol.

13.4. **Nodwyd** nad yw'r system adalw ar gyfer aelodau ar waith eto, a bod angen datblygu rheoliadau tebyg i'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau.

13.5. **Nodwyd** bod pwyllgorau wedi cael eu sefydlu yn y Senedd yn gynharach yr wythnos hon. Un ohonynt yw'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad a fydd yn gwneud gwaith ynglŷn ag arweiniad ar argymell bod aelod yn cael ei adalw.

14. Llywodraeth y Deyrnas Unedig

14.1. Cyflwynwyd eitem 14 ar lafar.

14.2. **Nodwyd** bod y Bil Cynrychiolaeth y Bobl wedi cael ei ailgyflwyno i senedd y Deyrnas Unedig, a gobeithir y bydd cam adrodd yn cael ei gynnal cyn toriad yr haf.

14.3. **Nodwyd** bod Gweinidogion yn bwriadu cynnal cyfarfodydd cyflwyniadol gyda Llywodraeth newydd Cymru.

14.4. **Nodwyd** bod y cynlluniau peilot pleidleisio hyblyg wedi cael eu cynnal yn Lloegr mewn polau lleol ac y bydd adroddiad gwerthuso llawn, gan gymharu nodiadau â Chymru.

14.5. **Nodwyd** bod rownd arall o gynlluniau peilot yn cael ei hystyried ar gyfer 2027.

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 04 Medi 2026